



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 20 Gorffennaf 2017

Yn bresennol:

Yr Ysgrifennydd Parhaol
(Cadeirydd)
Gawain Evans
Natalie Pearson
Elan Closs Stephens
Ann Keane
Adrian Webb (Eitemau 1-4)
Peter Kennedy
James Price (Eitem 1, 3-8)
Simon Dean (Yn dirprwyo dros
Andrew Goodall)
Jeff Godfrey
James Turner (Eitem 1)
Gillian Baranski
Carla Lyne

Yn cefnogi:

Richard Harries, Swyddfa Archwilio
Cymru (Eitem 1)
Alison Butler, Swyddfa Archwilio
Cymru (Eitem 1)
Martin Swain (Eitem 2)
Emma Williams (Eitem 2)
Des Clifford (Eitem 3)
Piers Bisson (Eitem 3)
Jo Salway (Eitem 4)
Toby Mason (Eitem 4)

Ymddiheuriadau:

David Richards
Lynne Schofield

Ysgrifenyddiaeth:

Emma Alexander
Sarita Marshall

Corfforaethol

1. **Cyfrifon Blynyddol a Sicrwydd Diwedd Blwyddyn [Bwrdd (17)038 – Bwrdd (17)042]**
 - 1.1 Cyflwynodd Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, Gyfrifon Blynyddol 2016/17 a chyflwynodd Richard Harries ac Alison Butler o Swyddfa Archwilio Cymru eu hadroddiad drafft - Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol, a oedd yn rhoi barn archwilio ddiamod. Cafodd y Bwrdd wybod y câi gwaith ei wneud i sicrhau mwy o effeithlonrwydd o ran cynhyrchu cyfrifon a'r broses archwilio yn y dyfodol.
 - 1.2 Cytunwyd ar Adroddiad Blynyddol y Bwrdd 2016/17, yn ddarostyngedig i ychwanegu cyfeiriad at y dull di-bapur a oedd yn cael ei dreialu ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd.
 - 1.3 Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARC) Adroddiad Blynyddol ARC 2016/17 drafft, a oedd wedi cael ei drafod yn y cyfarfod ARC diwethaf. Byddai'r drafft terfynol yn cynnwys cyfeiriad at

ystyriaeth y Pwyllgor o faterion sy'n ymwneud ac amcanion Cenedlaethau'r Dyfodol a Llesiant a Threfniadau Pontio'r UE.

- 1.4 Cyflwynodd Cadeirydd Y Pwyllgor Gweithrediadau Adroddiad Blynyddol 2016/17 y Pwyllgor, gan nodi mai un o themâu ei waith oedd gwella cysondeb yn y prosesau a'r systemau a ddefnyddir ar draws y sefydliad. Roedd hefyd wedi cynnal sawl cyfarfod mewn swyddfeydd y tu allan i Gaerdydd.
- 1.5 Diolchodd yr Ysgrifennydd Parhaol i'r Pwyllgor Gweithrediadau am ei egni a'i ymroddiad a dweud, yn sgil y diwygio ar gylch gorchwyl y Bwrdd, y byddai cylch gwaith is-bwyllgorau'r Bwrdd hefyd yn cael ei ystyried.
- 1.6 Nodwyd Adroddiad Blynyddol yr Uwch Wasanaeth Sifil 2016/17 hefyd.

2 Diweddariad ar Ymateb Llywodraeth Cymru i Dân Tŵr Grenfell [Board(17)043]

- 2.1 Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa bresennol o ran tai cymdeithasol ac adeiladau mewn amgylcheddau addysg ac iechyd, ynghyd â'r camau a gymerwyd hyd yn hyn mewn partneriaeth â Llywodraeth Leol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cynrychiolwyr Addysg Uwch ac Addysg Bellach a'r Gwasanaethau Tân ac Achub.
- 2.2 Cafodd y Bwrdd wybod bod adnoddau wedi cael eu symud i gefnogi gwaith ar y materion hyn a bod cyfathrebu â thenantiaid yn ganolbwynt pwysig. Roedd un pwynt cyswllt wedi'i sefydlu, roedd sgysiau beunyddiol yn cael eu cynnal â'r cymdeithasau tai ac roedd set o gwestiynau cyffredin wedi cael ei chyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.
- 2.3 Trafododd y Bwrdd hefyd bwysigrwydd y sianeli cyfathrebu rhwng Whitehall a Llywodraeth Cymru.
- 2.4 Diolchodd y Bwrdd i'r tîm am ei waith hyd yn hyn a chynnig eu cymorth yn ôl yr angen.

3 Trefniadau Pontio'r Undeb Ewropeaidd (UE)

- 3.1 Rhoes Des Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog a Piers Bisson, Dirprwy Gyfarwyddwr y Trefniadau Pontio Ewropeaidd, y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd ar gynnydd o ran y Trefniadau Pontio Ewropeaidd.

Perfformiad Llywodraeth Cymru

4 Monitro Cynnydd Cyflawni – Diweddariad ar y Strategaeth Drawsbynciol [Eitem lafar]

- 4.1 Cyflwynodd Jo Salway, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet a Toby Mason, Pennaeth Cyfathrebu Strategol y newyddion diweddaraf ar y camau nesaf mewn perthynas â'r Strategaeth Drawsbynciol 'Ffyniant i Bawb'.

Cytunwyd y dylai llythyr yr Ysgrifennydd Parhaol at Benaethiaid y Grŵp gynnwys manylion ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid.

- 4.2 Byddai'r Uwch Dîm yn cymryd rhan mewn sesiwn Strategaeth dros yr haf, a fyddai'n cynnig cyfle i rannu arferion da ac ystyried gweithredu, monitro ac adrodd.
- 4.3 Cafodd y Bwrdd wybod y câi digwyddiad ar gyfer Bandiau Gweithredol ei gynnal ym mis Medi, a fyddai'n atgyfnerthu'r neges am yr angen i weithio ar draws portffolios.
- 4.4 Cafodd Jo a Toby eu llongyfarch ar y gwaith a wnaed hyd yn hyn.

5 Wylfa Newydd [Bwrdd(17)044]

- 5.1 Rhoes Gwenllian Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr, Ynni a Dur, y newyddion diweddariad am ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad Cyn ymgeisio 3 a datblygu'r fframwaith etifeddiaeth.
- 5.2 Yng ngoleuni'r heriau a'r ysgogwyr allanol sy'n gysylltiedig â'r prosiect, cytunodd y Bwrdd i ddefnyddio strwythur llywodraethiant ffurfiol ar unwaith. Câi llythyr comisiynu oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol ei anfon allan i hwyluso hyn.
- 5.3 Cytunwyd y dylai sgwrs ar wahân gael ei chynnal ar adnoddau.
- 5.4 Cytunodd y Bwrdd y dylai diweddariad gael ei ddarparu ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd ym Medi a Hydref.
- 5.5 Cytunwyd hefyd y dylai'r Pwyllgor Gweithrediadau fynd ar drywydd cynnydd yn ei gyfarfod nesaf.

6 Adroddiad Cyllid

- 6.1 Cafodd y Bwrdd wybod bod y Gyllideb Atodol wedi cael ei gytuno ac y byddai Ysgrifennydd y Cabinet yn ysgrifennu at gydweithwyr. Oherwydd amseriad Cyfarfod y Bwrdd, câi'r Adroddiad Cyllid llawn ei gyhoeddi y tu allan i'r pwyllgor.

Eitemau Rheolaidd

7 Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol ac Adroddiadau Eithrio [Eitemau llafar]

- 7.1 Rhoes Natalie Pearson, Cyfarwyddwr, Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu, ddiweddariad am y gwaith sy'n cael ei wneud i ddiogelu'r sefydliad at y dyfodol. Roedd digwyddiad ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil wedi cael ei gynnal, a byddai digwyddiad ar gyfer staff Bandiau Gweithredol yn dilyn ym mis Medi. Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd annog staff yn eu hardaloedd i fod yn bresennol.
- 7.2 Diolchodd y Bwrdd i Natalie am ei gwaith a nodi'r gyd-ddibyniaeth ar y Strategaeth Drawsbynciol, 'Ffyniant i Bawb'.

8 Newyddion diweddaraf yr Is-bwyllgorau

- 8.1 Rhoes y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y newyddion diweddariad am gyfarfod diwethaf y Pwyllgor, lle y trafodwyd eitemau gan gynnwys mapio sicrwydd, y Gofrestr Risg Corfforaethol a goblygiadau tân Tŵr Grenfell. Roedd y Pwyllgor bellach yn teimlo bod y risgiau yng Ngrŵp OFMCO yn fwy gweladwy.
- 8.2 Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Gweithrediadau fod y Pwyllgor wedi cyfarfod ar wahân hefyd, yn ogystal â'i gyfarfod ffurfiol, i ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud ar ddiogelu'r sefydliad a llywodraethiant ynghylch rhoi'r Strategaeth Iechyd a Llesiant ar waith, yn unol â'r comisiwn a ddaeth oddi wrth y Bwrdd. Yn ei gyfarfod ffurfiol roedd y Pwyllgor wedi ystyried eitem reolaidd ar drefniadau caffael ac roedd wedi trafod cyflwyno Gweithio'n Hyblyg, a fyddai'n cael ei ystyried eto ym mis Medi. Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor Gweithrediadau gyflwyno argymhellion ynghylch cyflwyno Gweithio'n Hyblyg i'r Bwrdd.

9 Unrhyw Fater Arall

- 9.1 Rhoes Peter Kennedy ddiweddariad byr am y cynllun prentisiaethau. Dywedwyd wrth y Bwrdd y câi'r swyddi eu hariannu o fewn y Grwpiau ac y byddai angen i Grwpiau gadarnhau eu ceisiadau.
- 9.2 Tynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol sylw aelodau'r Bwrdd at y papurau i'w nodi.

Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, 24 Gorffennaf 2017